# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 5 Chwefror 2026 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Festri Pencaenewydd, a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

1. **Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr Anwen Jones (Cadeirydd), Rhys Tudur, Sian Angharad Parry, Euros Jones, Angharad Llwyd-Jones, Tegid Jones, Angela Williams, Dylan Thomas a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau** – Cynghorydd Miriam Williams, Aled Davies, Aled Evans, Dewi Thomas, Delyth Parry a Gareth Davies.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 8 Ionawr 2026.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Ionawr 2026.**

4. **Datgan buddiant personol**

**Cynghorydd Anwen Jones**
Eitem 22 (ll) sef Rhandiroedd Menter y Plu oherwydd ei bod yn fam i'r Cadeirydd
Eitem 22 ( c) sef Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.

**Cynghorydd Rhys Tudur**
Eitem 22(ng) sef Clwb Snwcer Chwilog oherwydd ei fod yn gyn aelod o'r Clwb Snwcer.

**Cynghorydd Euros Jones**
Eitem 22(ng) sef Clwb Snwcer Chwilog oherwydd ei fod yn aelod o'r Clwb Snwcer.

**Cynghorydd Tegid Jones**
Eitem 22(ll) sef Rhandiroedd Menter y Plu oherwydd ei fod yn Gyfarwyddwr y Fenter
Eitem 22 ( c) sef Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.
Eitem 22 (g) sef Cangen Urdd Glannau Dwyfor oherwydd ei fod ar y Pwyllgor.

**Cynghorydd Angela Williams**
Eitem 22 (f) sef Ysgol Llangybi oherwydd ei bod yn gweithio yn yr Ysgol.
Eitem 22 (n) sef Cylch Meithrin Llangybi oherwydd ei bod yn gweithio yn yr un safle.

**Cynghorydd Dylan Thomas**
Eitem 22 (d) sef Mynwent Rydd Chwilog oherwydd fod ei dad yn Ysgrifennydd y Fynwent.

**Cynghorydd Sian Angharad Parry**
Eitem 22 (b) sef Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog oherwydd bod aelodau o'r teulu yn perthyn i'r Clwb.
Eitem 22 ( c) sef Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y Fynwent.
Eitem 22 (o) sef Cór Eifionydd oherwydd ei bod yn aelod o'r cór.

**Cynghorydd Angharad Llwyd-Jones**

Eitem 22 (ff) sef Eisteddfod Gadeiriol Chwilog oherwydd ei bod yn gwirfoddoli gyda'r lluniaeth ar y diwrnod.

5. **<u>Sedd newydd yn Ward Llanystumdwy.</u>** Clerc wedi derbyn gwybodaeth na wnaeth neb gysylltu hefo Huw Elfed Roberts, Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, felly bydd angen cyfethol. Clerc wedi roi hysbyseb ar y wefan ac ar hysbysfwrdd yn Llanystumdwy.

6. **<u>Materion gan Cyngor Gwynedd</u>**

| **Lleoliad y Gwaith** | **Disgrifiad o'r Gwaith** |
|---|---|
| Cylchfan Afonwen | Arwyddion Cyflymder – 'Teithio Llesol' |
| Llanystumdwy | Tim Tacluso Ardal Ni (23.02.26 - 27.2.26) |
| Ynys Greua, Llangybi | Atgyweirio ymyl ffordd |

7. **<u>Cais cynllunio sydd angen penderfyniad - un wedi cyrraedd yn hwyr, a'i drafod ar ddiwedd y cyfarfod.</u>**

8. **<u>Gwasanaeth Bysiau nos.</u>**

Cais gan Cyngor Tref Pwllheli, yn cysylltu â'r holl gynghorau tref a chymuned lleol ynglyn â diffyg gwasanaeth bysiau, yn hwyrach yn y nos.

Cyn y pandemig, roedd bysiau'n rhedeg yn hwyrach gyda'r nos ar benwythnosau o bentrefi Pen Llyn i Bwllheli, yn ogystal ag o ardaloedd Cricieth a Porthmadog, a Trefor a Chaernarfon. Ers hynny nid yw'r amserlen flaenorol wedi cael ei hailsefydlu ers 2020.

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu Cynllun Ardal Ni, ac mae trafnidiaeth gyda'r nos yn cyd fynd a sawl blaenoriaethau o'r cynllun hwn, gan gynnwys - cefnogi busnesau lleol, creu ardal fwy gwyrdd a datblygu cynllun twristiaeth gynaliadwy effeithiol.

Bydd gwneud hyn yn cael effaith gadarnhaol ar dafarndai, bwytai, canolfannau hamdden a gweithgareddau gyda'r nos.

Os oes y gefnogaeth angenrheidiol gan y cynghorau, yna'r cam nesaf yw cael cefnogaeth gan bartneriaid lleol, er enghraifft busnesau, mudiadau a chyflogwyr lleol. Byddai angen hyn cyn ysgrifennu'n ffurfiol at Cyngor Gwynedd a Thrafnidiaeth Cymru yn gofyn iddynt ail ystyried trafnidiaeth gyhoeddus yn ystod y nos o ardaloedd gwledig a phentrefi i drefi yn Nwyfor ac Arfon. Efallai byddai cyfnod prawf o ddwy flynedd, o bosibl o Haf 2026 ymlaen, er mwyn mesur y galw. **<u>Cefnogi a gofyn wrth y Clerc adael i Clerc Cyngor Tref Pwllheli wybod.</u>**

**<u>Materion yn y gymuned</u>**.

9. **<u>Llanystumdwy</u>**

a) **<u>Clawdd Maen y Wern</u>** – y gwaith wedi cael ei ddechrau gan Mr Idris Jones ond deallir ei fod angen strimio ychydig mwy. Mae wedi cymryd cryn oriau o waith oherwydd nad oedd wedi cael ei dorri'n iawn am tua 3 mlynedd cynt.

b) **<u>Nant y Glyn, Llanystumdwy</u>** – perchnogion yr eiddo wedi cysylltu hefo'r Clerc, yn poeni'n arw pan mae'n bwrw'n drwm mae dŵr sydd yn llifo o'r lon yn mynd i mewn i'w tŷ a garej. Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ar ei rhan.

c) **<u>Tyllau lon ger Cyrion, Llanystumdwy</u>**. Mr Gareth Dobson wedi cysylltu hefo'r Clerc, ac wedi trefnu cyfarfod safle 15.01.2026 hefo cymdogion a 2 swyddog o'r Bwrdd Dwr.
Roedd y Bwrdd Dwr am edrych i mewn i'r mater oherwydd ei bod yn teithio nol a blaen ar hyd y lon y aml, ac angen gwybod pwy oedd yn gyfrifol am y lon. **<u>Clerc am gysylltu hefo Mr Osian Eryl Syrfewr Stadau Cyngor Gwynedd i holi.</u>**

ch) **<u>Maen y Wern-llinnellau melyn</u>** – Andrew Gregson, Uwch Beiriannydd Traffig wedi ymweld a'r safle.
Mae'r ffordd yn culhau i 4.7m gyferbyn a rhif 6 Maenywern ac yna yn agor allan i led o 5.7m. Gyferbyn a rhif 10 mae'r ffordd oddeutu 5.5m sef ychydig yn llai na chyfartaledd lled y ffordd yn ei gyfanrwydd (5.7m)

Dywedodd fod cyfiawnhad i ymestyn y gwaharddau presennol oddeutu 15m i leoliad gyferbyn a rhif 6 gan fod y ffordd yn culhau. Nid oes pwrpas cynnig gwaharddau wrth rhif 10 gan fod yna ddigon o led i ddau gerbyd cyffredin fynd heibio ei gilydd wrth gymryd pwyll.

Felly gofynwyd i'r Clerc ofyn am farn y 4 Cynghorydd sydd ar Ward Llanystumdwy am ei sylwadau, er mwyn medru hysbysu Mr Andrew Gregson o benderfyniad y Cyngor.

- Gwir bryder am ddiogelwch a llif traffig (mae rhaid rhoi rhesymeg gyfreithiol gadarn i berwyl hyn).
- A yw'r pryder yn achlysurol neu barhaus.
- A yw'r gwaharddiadau newydd am greu problem debyg neu waeth mewn ardal gyfagos.
- Effeithlonrwydd y gwaharddau ar ymddygiad gyrwyr.
- Disgwyliadau gorfodaeth yn yr ardal.

**<u>Gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo'r 4 Cynghorydd sydd yn Ward Llanystumdwy yn ystod y mis, er mwyn cael ei barn a sylwadau ac wedyn anfon ateb at Andrew Gregson.</u>**

10. **<u>Rhoslan/Ynys</u>**
11. **<u>Chwilog</u>**
**<u>Baw cwm yn Chwilog</u>** – derbyniwyd ateb gan Mr Darryl Jones, Swyddog Gorfodaeth Swyddfa Cyngor Ardal Dwyfor yn dweud cyn y gall roi hysbysiad cosb benodedig, rhaid iddo gael tystiolaeth ddiamheuol o'r drosedd yn digwydd. Gall hyn fod yn gamera cylch cyfyng yn dangos y ci yn baeddu a'r perchennog yn cerdded i ffwrdd heb ei godi neu ddatganiad llygad-dyst, byddai angen iddynt fod yn fodlon ymddangos yn y llys os oes angen, neu ei fod yn gweld y digwyddiad ei hun.

Roedd wedi gwirio'r lluniau camerâu cylch cyfyng yn Siop Povey, a gadael rhai arwyddion yno i'w gosod ar ei eiddo.

Roedd hefyd yn mynd yn rheolaidd i Lôn y Plas/Lôn Goed ac ardaloedd eraill ond nid yw wedi dal y troseddwr/troseddwyr eto.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai trigolion lleol sy'n gweld trosedd yn digwydd yn cael eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau ar ApGwynedd, fel ei bod yn gallu gweithredu ar unwaith. **Derbyn**.

12. **Pencaenewydd/Sardis -dim**

13. **Llangybi**.
a) **Canllaw ar 'Bont y Merched'**
Derbyniwyd ymateb gan Mr Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy yn dweud ei fod wedi llwyddo i drwsio'r canllaw.

Dywedodd ei fod wedi ail edrych ar y bont yma i weld sut gall ddiogelu y cyhoedd, yn enwedig plant, tra maent yn croesi drosodd. Mae yno giât fochyn ar y piler hanner ffordd dros y bont ond nid yw hi yn gweithio yn iawn oherwydd mae'r postyn hongian wedi torri – mae wedi ei chlymu i'r piler ffens concrit ar hyn o bryd. Yn anffodus mae ei giatiau mochyn newydd, sef giât clicied a cawell, yn cymryd oddeutu 2m mewn llinell syth a dim ond oddeutu 1.5m sydd ar gael ar y piler mha. Hefyd roedd yn bryderus o ran sut i osod canllaw newydd yn ei le oherwydd cyflwr a trwch y pont concrit.

Eglurodd fod y bont wreiddiol yn un slabiau llechan, gyda piler rhwng y ddau. Rhyw dro yn y gorffennol roedd y slab llechan ar y prif rhan o'r afon wedi malu ac wedi ei thrwsio efo slab o concrit tua 4 modfedd o drwch – ddim yn hollol siŵr faint o flynyddoedd sydd ar ôl i'r slab yma. Mae'r rhan arall o'r bont dal efo'r slab llechan (wreiddiol?) ond mae hi wedi cael ei ddefnyddio er mwyn dal slab concrit arall.

Felly os nad ydyw'r bont ei hyn o diddordeb hanesyddol roedd yn edrych i cael gwared o'r slabiau concrit, cadw y llechan yn ei lle a wedyn codi pont newydd bydd efo canllaw pob ochr a giât pob pen. Hefyd, o rhan y cerrig camau pob ochr i'r bont, nid oedd yn siwr os oedd hi werth cysidro gosod canllaw un ochr arnynt.

Fe wnaeth y Clerc gysylltu hefo'r Cynghorydd Rhys Tudur, Euros Jones, Angela Williams a Mr Twm Prys Jones, i holi beth oedd ei barn ar y mater. **Cytunwyd mai'r opsiwn olaf o gael pont newydd ddiogel hefo canllaw pob ochr fyddai orau, ac hefo'r cerrig camu. Byddai cael canllaw un ochr o gymorth i amryw o bob oed, yn enwedig os ydynt yn wlyb a llithrig**. **Cytuno a chysylltu hefo'r Adran Llwybrau i'w hysbysu o hyn**.

14. **Materion Ariannol**

**Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.**
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.01.2026. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Derbyn.

15. **Arwyddion llechi pontydd wedi cyrraedd** – y Clerc wedi mynd a nhw i Swyddfa Ardal Dwyfor, er mwyn i'r Adran Ymgynhoriaeth Pontydd ei gosod yn ddi-gost i'r Cyngor Cymuned.

16. **Hysbysfwrdd Beirdd Mynwent Chwilog** – bydd yn barod erbyn tua 11 Chwefror 2026, ac angen i'r Clerc holi am bris i'w osod pan fydd yn barod.

17. **Cronfa Gwynedd Ni** – derbyniwyd gwybodaeth ei bod yn edrych yn debygol iawn bydd y gronfa yma yn ail-agor eleni, ac felly mi roedd yn awgrymu i'r Cyngor Cymuned wneud ymchwil cychwynnol ar gyfer unrhyw gynlluniau newydd. Er hyn, mae'n bosib mai cronfa cyfalaf yn unig fydd o felly ni fydd cyngerdd / digwyddiad yn gymwys.

18. **Cae chwarae Llangybi** – derbyn anfoneb am dorri'r cae chwarae gan Mr Alan Adams. Wedi ei dorri 5 gwaith yn lle 6, haf diwethaf, ac heb dorri Garn Bentyrch na Maen y Wern, Llanystumdwy. Llynedd cytunwyd i ofyn wrtho wneud y Cae Chwarae am 2 dymor hyd at Hydref 2026 am bris £780.00, ond cytuno fod y Clerc yn sgwennu ato i ddweud bydd hysbyseb arall yn cael ei roi am gael gwneud y gwaith eto o fis Ebrill 2026 ymlaen, oherwydd na wnaed y gwaith fe y gofynwydd llynedd.

19. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw** | Rheswm | Pris £ | TAW £ | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Alan Adams | Torri Cae Chwarae Llangybi | **500.00** | | **500.00** | **500.00** |
| Neuadd Chwilog | Llogi Ystafell Medi, Hydref, Tachwedd a Rhagfyr | **60.00** | | **60.00** | **60.00** |
| Y Ffynnon (130) | Hysbyseb rhifyn Rhagfyr 2025 | **14.00** | | **14.00** | **14.00** |
| Neuadd Chwilog | Cyswllt Wifi 'Plusnet' - taliad rhwng 01.01.2025 – 31.12.2025 | **361.81** | | **361.81** | **361.81** |

20. Cyflog mis Ionawr 2026 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ionawr 2026 35 awr y mis x £18.85 = **£659.75** a | £659.75 Llai treth- £132.00 = **£527.75** | **527.75** | **527.75** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Ionawr 2026 £660.00 x 20% = £132.00 | **£132.00** | **132.00** | **132.00** |
| Costau swyddfa Clerc Ionawr 2026 | **26.00** | **26.00** | **26.00** |

21. **Materion hwyr**

Cytunwyd mai ar y nos Iau **05.03.2026** fydd y cyfarfod nesaf yn Festri Pencaenewydd a drwy Zoom.

a) **Sbwriel ar waelod y Lon Goed – ger Plas Hen** – Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd oherwydd nad oedd digon o le yn y biniau sydd yno.
b) **Ystumcegid Isaf, Cricieth** cais cynllunio : C25/0789/41/LL - Codi estyniad i adeilad amaethyddol ar gyfer creu to dros fuarth fferm presennol a storfa dail sych. **Dim gwrthwynebiad.**

c) **<u>Amgueddfa Lloyd George</u>** – llythyr gan Nést Thomas, Rheolwr Amgueddfeydd yn holi am enw ar ran y Cyngor Cymuned i ymgynghori ar y comisiwn i edrych ar greu cynllun Datblygu Cynulleidfa a Marchnata ar gyfer yr Amgueddfa. <u>Cynghorydd Rhys Tudur wedi cynnig gwirfoddoli ar ran y Cyngor Cymuned.</u>

22. **<u>CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL</u>** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor – hysbyseb wedi cael ei roi yn rhifyn mis Rhagfyr 2025 o'r Ffynnon ac ar yr hysbysfyrddau a'r wefan gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2026.

| **<u>22.</u>** | **<u>2026 – Derbyniwyd 18 cais (13 llynedd) gan:-</u>** | **£** | **Cynghorwyr yn ymneilltuo** |
|---|---|---|---|
| (a). | Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi | 500.00 | Neb |
| (b) | Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Madog | 500.00 | Sian Angharad Owen |
| (c). | Mynwent Newydd Llanystumdwy | 1000.00 | Sian Angharad Owen, Dewi Thomas |
| (ch ) | Mynwent Capel Helyg, Llangybi | 500.00 | Neb |
| (d) | Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog | 1000.00 | Dylan Thomas |
| (dd) | Clwb Peldroed Llanystumdwy | 400.00 | Neb |
| (e) | Neuadd Goffa Chwilog | 1000.00 | Neb |
| (f) | Cylch Meithrin Llangybi | 1000.00 | Angela Williams |
| (ff) | Eisteddfod Gadeiriol Chwilog | 500.00 | Angharad-Llwyd Jones |
| (g) | Cangen Urdd Glannau Dwyfor | 800.00 | Tegid Jones |
| (ng) | Clwb Snwcer Chwilog | 200.00 | Rhys Tudur, Euros Jones |
| (h) | Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | 100.00 | Neb |
| (i) | Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Eryri | 50.00 | Neb |
| (l) | Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Ynys Món 2026 | 50.00 | Neb |
| (ll) | Menter Y Plu – rhandiroedd | 200.00 | Tegid Jones, Anwen Jones, |
| (m) | Cae chwarae Llanystumdwy | 0.00 | Neb |
| (n) | Ysgol Llangybi | 0.00 | Angela Williams |
| (o) | Cor Eifionydd | 200.00 | Sian Angharad Owen |
| | Cyfanswm Cyfraniadau ariannol | £8,000.00 | |